

CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH - COFNODION CYFARFOD 04/07/2016

PRESENNOL: Cynghorwyr: Austin Roberts, Gwyn M Jones, Katherine Himsworth, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Arthur Williams, Dawn Williams, John Lloyd Williams, Gwilym Williams.

1. **CROESO:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Austin Roberts, bawb i'r cyfarfod gan estyn croeso arbennig i Mr Gwilym Williams i'w gyfarfod cyntaf. Cwblhaodd y Ffurflen 'Datganiad Derbyn Swydd' a derbyniodd gopi o'r Côt Ymddygiad, Rheolau Sefydlog a Ffurflen Cofrestr Cysylltiadau Aelodau.

Cydymdeimlwyd a'r Cyng. Gwyn Williams a'r Cyng. John Lloyd Williams yn eu profedigaethau diweddar.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Gwyn Williams.

3. **DATGAN DIDDORDEB:** Dim.

4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** cafwyd cofnodion cyfarfod 06/06/16 yn gywir ac fe'u harwyddwyd.

5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

Ymunodd y Cyng. Dawn Williams a'r cyfarfod.

Llwybrau - eglurodd y Cyng. Austin Roberts y bydd yn cyfarfod a'r Sir ar 14/07/16 i drafod y Cynllun Cynnal Llwybrau ynghyd a'r adroddiad a dderbyniwyd gan Ms Lorenz-Kubis a Mr McKenzie. Yn ogystal, byddant yn ymweld a llwybr Chwarel Nant er mwyn ceisio symud ymlaen gyda hyn.

Cynnydd mewn amser o wacau biniau duon - darllenwyd ymateb gan Gyngor Conwy yn nodi bod y Cabinet wedi cytuno i dreilau'r cynllun casgliadau bob 4 wythnos er mwyn ceisio bodloni'r gofynion ail-gylchu statudol. Bydd taflen wybodaeth am y newidiadau yn cael ei hanfon i bob cartref a nodwyd y pwysigrwydd o gysylltu a'r Adran yn syth os oes unrhyw breswlydd yn cael problemau.

Archwiliad Mewnol 2015-16 - nodwyd argymhelliad gan Ms Pryor y dylai'r arian wrth gefn ar gyfer etholiadau gael eu nodi fel 'earmarked reserve' er mwyn cydymffurfio a'r lefelau gofynnol.

Bws X1 - nodwyd ymateb gan y Sir, mai mater i Express Motors yw unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth, felly cytunwyd i anfon y cais ymlaen atynt.

Blwch ffôn y Graig - y gordyfiant wedi cael ei glirio a chaiff y blwch ei baentio yn 2017.

Bocs band-eang y Graig - aros am gadarnhad gan adran gynllunio Openreach fod y gwaith wedi ei gwblhau.

Parcio yng Ngerddi Bodnant - cafwyd cadarnhad gan yr Heddlu eu fod mewn trafodaethau a'r Ymddiriedolaeth.

Mynegodd y Cyng. Austin Roberts nad oes modd gosod arwyddion 40m.y.a. o Graig i North Lodge ond efallai bod modd cael arwyddion 'Arafwch - ffordd yn culhau'. Y Sir am edrych i mewn i'r mater.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO:** Dim.

Penderfyniadau'r Sir ar Geisiadau Cynllunio:

0/42807 – Hiraethog, Ffordd Pennant - tynnwyd y cais yn ôl.

0/42700 - Glanaber, Ffordd Eglwys Bach - caniatwyd.

7. **MATERION PENODOL I'W PENDERFYNU:**

Cyhoeddi munudau drafft i aelodau - cafwyd cais i'r Clerc anfon cofnodion drafft allan i'r aelodau yn gynt yn dilyn cyfarfod. Byddai hyn o fudd i unrhyw aelod sydd wedi methu cyfarfod. Eglurodd y Clerc mai'r prif nod yn dilyn cyfarfod ydy gweithredu ar y materion sy'n codi ac nid yw'n gallu troi at wneud y cofnodion yn syth bob mis. Trafodwyd a chytunwyd y dylai unrhyw aelod absennol sy'n dymuno cael gwybod am yr hyn a drafodwyd gysylltu a'r Clerc er mwyn cael crynodeb.

Taliadau - Mrs Sue Hayward, Glanhau Toiledau - £98.00
Cyngor Conwy – Sgip Gymunedol - £222.00
Mrs Einir Jones – cyflog a chostau'r Clerc ar gyfer mis Mehefin - £174.99
Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (Treth ar gyflog mis Mehefin y Clerc) - £37.50

8. **GOHEBIAETH:**

- 'Defibrillator yn y Gymuned' - cytunwyd i wahodd Parafeddyg i'r cyfarfod nesaf i drafod y mater.

9. **UNRHYW FATER ARALL:**

Materion Ffyrdd -

Ffordd Gyffyllog - wedi ei chlustnodi i gael ei hail-wneud ac i Bodnant dorri'r clawdd;
Ffordd Eglwys Bach - y clawdd ger Henblas i gael ei dorri;
Ffordd Cae Forys - wedi dirywio ac angen sylw.

Polyn Fflag - yn gwyo i un ochr - Cyng. Austin Roberts i gael gair gyda'r Cyng. Gwyn Williams.

Y Swyddfa Bost - posiblwydd na fydd y gwasanaeth yn dechrau dydd Iau wedi'r cwbl.

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:** nos Lun 05/09/2016 am 7:30 o'r gloch.